# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 4 Mawrth 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.37** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 26 Mawrth 2014**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Julie James (Gorllewin Abertawe) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Dadreoleiddio

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dadreoleiddio.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio’r Memorandwm atodol at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 1 Mai 2014, er mwyn i’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mai 2014.